# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd A Thrafnidiaeth

## EDT2 05-05 (p3)

Dyddiad:20 Ebrill 2005
Amser:9.00 - 12.30
Lleoliad:Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
Teitl:Fframwaith Strategol Ar Gyfer Blaenau'r Cymoedd

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i roi ei sylwadau ar y Fframwaith Strategol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd (a gynhwysir yn Atodiad 1).

### Cefndir

2. Ar 31 Mawrth 2005, fe lansiais ymgynghoriad ar y Fframwaith Strategol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 30 Mehefin 2005.

3. Mae'r ymgynghoriad yn dilyn y cyhoeddiad a wnaed ar 22 Tachwedd 2004, ynghylch 'Gweithio Gyda'n Gilydd dros Flaenau'r Cymoedd', y Rhaglen Bartneriaeth newydd ar gyfer y gwaith adfywio sy'n digwydd ym Mlaenau'r Cymoedd.

4. Bydd y Rhaglen Bartneriaeth yn canolbwyntio ymdrechion Tîm Cymru er mwyn cael y buddiannau economaidd mwyaf posibl o wariant y sector cyhoeddus yn yr ardal, gan gynnwys y prosiect gwerth £300 miliwn i uwchraddio'r A465, yn ogystal â helpu i ddenu mwy o fuddsoddiad o'r sector preifat.

5. Prif amcan y Rhaglen yw paratoi strategaeth ddatblygu tymor hir (10-15 mlynedd) ar gyfer Blaenau'r Cymoedd o fewn cyd-destun Cynllun Gofodol Cymru. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi £140 miliwn o gyllid arbennig dros gyfnod y Rhaglen, yn ychwanegol at y lefelau gwariant presennol.

6. Mae'r Fframwaith Strategol yn amlinellu'r materion y mae'n rhaid ymdrin â hwy a'r camau yr ydym wedi ymrwymo i'w cymryd er mwyn creu dyfodol mwy llewyrchus i Flaenau'r Cymoedd fel rhan o Ranbarth y Brifddinas y De-ddwyrain.

7. Wrth ddatblygu'r ddogfen, y nod oedd cynnwys y rhanddeiliaid yn llawn, a chyn gynted ag sy'n bosibl yn y broses, er mwyn creu dogfen safonol a chynhwysol.

## Y Camau Nesaf

8. Byddwn yn:

Trefnu rhaglen lawn o ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn sicrhau bod y rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori.

Pennu'r camau hynny y gellir eu gweithredu yn gyflym.

Recriwtio Cyfarwyddwr y Rhaglen erbyn yr haf 2005 i arwain y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth lawn, gyda chymorth Tîm dynodedig ar gyfer y Rhaglen;

Gosod y gwaith hwn o fewn fframwaith ehangach Grwp y Cynllun Gofodol y byddaf i yn ei arwain yn y De-ddwyrain, er mwyn rheoli'r broses o weithredu'r Cynllun yn Rhanbarth y Brifddinas.

Adeiladu ar y gwaith presennol a defnyddio'r adborth a gesglir yn ystod y broses ymgynghori i baratoi dadansoddiad a chynllun gweithredu manwl ar gyfer Blaenau'r Cymoedd. Defnyddio Erfyn Integreiddio Llywodraeth y Cynulliad a'r asesiad amgylcheddol strategol fel sylfaen gwybodaeth ar gyfer datblygu'r strategaeth.

## Goblygiadau Ariannol

9. Caiff y gwaith ei gyflawni o fewn cyllidebau presennol y Cynulliad, a'r cyllidebau arfaethedig, er y bydd angen trosglwyddo peth arian yn fewnol er mwyn dyrannu elfennau o'r gronfa heriau newydd i'r portffolios mwyaf priodol.

## Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu Cymryd

10. Ystyried y Ddogfen Ymgynghori a rhoi sylwadau arni.

**Andrew Davies**
**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

**Person cyswllt: Bethan Gedrych, Is-adran Polisi Economaidd 1, est: 5046**